**EITEM AR YR AGENDA: 21**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**19eg Mawrth 2012**

## NEWIDIADAU I'R RHEOLAU SEFYDLOG

**Adroddiad gan Colin Everett, Clerc yr Awdurdod**

## Diben yr Adroddiad

1 Argymell newidiadau cynnal a chadw ar unwaith i Reolau Sefydlog, ynghyd â chynnig i gynnal arolwg llawn o'r Rheolau Sefydlog yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ym mis Mehefin.

## Y Cefndir

2 Yn ddiweddar, bu Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar newid, trwy Orchymyn, y dyddiad y mae'n rhaid i Awdurdodau Tân ac Achub gyhoeddi eu Cynlluniau Gwella, sef o "cyn gynted ag y modd yn ymarferol ar ôl 30 Medi" i "cyn gynted ag y bo modd yn ymarferol ar ôl 31 Rhagfyr" yn y flwyddyn cyn y flwyddyn ariannol y mae'r cynllun yn ymwneud â hi.

3 Roedd y canllawiau statudol a ddaeth allan ym mis Mai 2010 yn dehongli "cyn gynted ag y bo modd yn ymarferol ar ôl 30 Medi" i olygu erbyn 31 Hydref – sef y dyddiad erbyn pryd y mae ATAau wedi bod yn cyhoeddi eu Cynlluniau i Leihau Risg a Gwella ers 2006.

4 Er na ddaeth cadarnhad eto, deellir:

a. y bydd y Gorchymyn sy'n cyflwyno'r dyddiad terfynol newydd ar gyfer cyhoeddi yn dod i rym yn ystod Mai 2012, ac y bydd y newid hwnnw'n cael effaith ar gynlluniau gwella ATAau am flwyddyn ariannol 2013-14;

b. yn ystod 2012, bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi canllawiau newydd ar gynlluniau gwella statudol i ATAau a fydd yn dehongli dyddiad “cyn gynted ag y bo modd yn ymarferol ar ôl 31 Rhagfyr” i olygu erbyn diwedd mis Mawrth.

## Gwybodaeth

5 Yn wreiddiol, cafodd dyddiad cyfarfod yr Awdurdod yn nhymor yr hydref ei symud o fis Medi i fis Hydref yn 2006 er mwyn addasu ar gyfer y gofyniad i’r Awdurdod gymeradwyo drafft terfynol ei Gynllun Gwella cyn ei gyhoeddi erbyn 31ain Hydref.

6 Bydd cyflwyno dyddiad terfynol newydd, sef 31ain Mawrth, yn golygu nad yw’r rheswm hwn dros gynnal cyfarfod ym mis Hydref yn hytrach na mis Medi yn bodoli bellach. Bydd y dyddiad ym mis Mawrth yn golygu mynd yn ôl i’r dyddiad terfynol gwreiddiol erbyn pryd yr oedd yn rhaid i Awdurdodau Tân gyhoeddi Cynlluniau Perfformiad Gwerth Gorau rhwng 1999 a 2001.

7 Er mwyn newid dyddiadau’r cyfarfodydd, mae angen newid y Rheolau Sefydlog oherwydd eu bod yn cyfyngu cyfarfodydd yr awdurdod i gael eu cynnal ym misoedd penodol Mehefin, Hydref, Rhagfyr a Mawrth.

8 Byddai o fudd cael hyblygrwydd mewn perthynas â dyddiadau’r cyfarfodydd llawn; felly cynigir newid Rheol Sefydlog 4 (2) i ddarllen:

Cynhelir cyfarfodydd yr awdurdod o leiaf bedair gwaith y flwyddyn, a’r cyfarfod blynyddol i’w gynnal heb fod yn hwyrach na Mehefin. Fel arfer, cynhelir y cyfarfodydd hyn ar y trydydd dydd Llun yn y mis oni bai y penderfynir yn wahanol gan y Cadeirydd mewn ymgynghoriad â’r Clerc a’r Prif Swyddog Tân.

9 Gyda’r Pwyllgor Archwilio wedi ei sefydlu erbyn hyn, cynigir ychwanegu’r canlynol dan Reol Sefydlog 12.

(2) (a) Ceir Pwyllgor Archwilio sy’n cynnwys 14 o aelodau sy’n pleidleisio a sydd heb fod ar y Panel Gweithredol.

(b) Bydd cylch gorchwyl y Pwyllgor, a'r swyddogaethau i'w cyflawni ganddo, yn rhai a benderfynir gan yr Awdurdod o bryd i'w gilydd.

(c) Bydd y rheolau sefydlog hyn yn berthnasol i'r Pwyllgor Archwilio fel pe bai'n un o bwyllgorau'r Awdurdod oni bai am reolau sefydlog 14(2) a 17.

(d) Y Pwyllgor Archwilio fydd yn penodi Cadeirydd ac Is-Gadeirydd, a chadarnheir hyn yng nghyfarfod dilynol yr Awdurdod.

10 Cynigir hefyd newid y Rheolau Sefydlog i adlewyrchu teitl newydd yr is-gadeirydd i ddirprwy gadeirydd, fel y nodir yn yr adroddiad ar y Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol.

## Argymhelliad

11 Gofynnir i'r Aelodau:

(i) gymeradwyo'r newidiadau i Reolau Sefydlog yr Awdurdod fel yr amlinellir uchod ym mharagraffau 8, 9 a 10;

(ii) nodi y caiff y Rheolau Sefydlog eu hadolygu'n llawn erbyn y Cyfarfod Blynyddol ym mis Mehefin.